

# Strategaeth Iaith Gwynedd 2014 - 2018



**CYMRAG**

**#PethauBychain**



# RHAGAIR

**hunaniaith** yw'r corff sy'n gweithredu fel Menter Iaith yng Ngwynedd. Mae'n gweithio law yn llaw gyda Chyngor Gwynedd, ond hefyd mewn partneriaeth gyda nifer o gyrff eraill yn y sir, gyda'r nod o gryfhau'r Gymraeg fel iaith ar yr aelwyd, yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y gweithle. Ein bwriad i'r dyfodol yw gweithio'n agosach gyda'r gymuned, ac yn enwedig felly gyda grwpiau cymunedol sy'n gweithredu ar lawr gwlad i hybu defnydd o'r iaith.

Ar ran hunaniaith, fy mraint yw cyflwyno **Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2018**, a fydd yn cyfeirio'n gwaith dros y tair blynedd nesaf. Ynnddi ceir darlun o'r sefyllfa ieithyddol yma yng Ngwynedd yn dilyn gwaith manwl i ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Hefyd gwnaed ymchwil trylwyr i'r gwaith da sydd wedi bod yn digwydd yng nghymunedau, ysgolion a gweithleoedd y Sir, a'r gwaith a wnaed gyda phartneriaid a'r sectorau amrywiol ers cyhoeddi Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-2013.

Er mai Gwynedd yw'r sir gyda chanran uchaf y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, o edrych ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 daeth i'r amlwg bod y nifer sydd yn siarad yr iaith wedi gostwng yn sylweddol mewn rhai ardaloedd. Roedd Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-2013 wedi rhagweld hyn, ac y mae'n debygol y byddai'r gostyngiad wedi bod yn fwy oni bai am y gwaith a gyflawnwyd. Ond credwn yn awr y gallwn, ar sail ein profiad a'r gwaith a wnaed ar gyfer y strategaeth newydd, droi'r llanw o blaid yr iaith.

Nid gwaith hawdd yw llunio strategaeth iaith a chynllunio ieithyddol dros dymor hir. Mae amgylchiadau economaidd a chymdeithasol yn gallu newid yn sydyn, a symudiadau yn y boblogaeth - i mewn ac allan o'r Sir - yn golygu bod y ffactorau allweddol - ac felly'r data perthnasol yn dyddio'n gyflym. Serch hynny, rydym yn hyderus fod y data sy'n sail i'r strategaeth bresennol y cywiraf, a'r mwyaf cadarn sydd ar gael am y Gymraeg yma yng Ngwynedd.

Mae'r Strategaeth yn nodi ac egluro pa feysydd sydd wedi eu hamlygu fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, a pham a sut mae mynd i'r afael â'r dasg enfawr o sicrhau gallu cyrraedd ein targed heriol, sef:

*'Sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021'.*

Mae'r her sydd o'n blaenau yn un aruthrol. Ond drwy osod gweledigaeth gref, gallwn sicrhau bod holl drigolion Gwynedd yn rhan o gymdeithas ddwyieithog ffyniannus, gyfoethog ei diwylliant. Rydym wedi ein harfogi i fynd ati gyda gwybodaeth ac ymchwil gadarn, ond, yn anad dim, gyda brwdfrydedd ac ymroddiad, a fydd yn allweddol i gynnal a chryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, gan gydnabod bod yr heriau sy'n ein hwynebu yn gallu amrywio'n fawr o ardal i ardal.

Trwy gydweithio'n agos gyda chyrff, mudiadau, ysgolion, unigolion a chymunedau, rydym yn hyderus y gall hunaniaith fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r iaith ar hyd a lled Gwynedd.

Dafydd Iwan, Cadeirydd hunaniaith

# CYSYLLTU

Os hoffech ragor o wybodaeth am waith hunaniaith; neu'r modd y gallwch chi gyfrannu tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd, cysylltwch â:

hunaniaith  
Adran Strategol a Gwella  
Pencadlys  
Cyngor Gwynedd  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Ffôn: (01286) 679 452

e-bost: [hunaniaith@gwynedd.gov.uk](mailto:hunaniaith@gwynedd.gov.uk)

## FERSIYNAU HYGJRCH O STRATEGAETH IAITH GWYNEDD

Os dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Strategaeth Iaith Gwynedd ar gais; mae hyn yn cynnwys:

Fersiwn print bras  
Fersiwn ar dâp  
Fersiwn mewn Braille  
Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch â hunaniaith i archebu fersiwn hygyrch.

# CYNNWYS

		TUDALEN
ADRAN 1	Cyflwyniad Ystadegol	4
ADRAN 2	Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol	8
ADRAN 3	Y Fethodoleg	10
ADRAN 4	Gweithredu Strategaeth Iaith Gwynedd	12
ADRAN 5	Y Weledigaeth	13
ADRAN 6	Y Meysydd Strategol	14
	Maes Strategol 1 - Y Teulu	14
	Maes Strategol 2 - Plant a Phobl Ifanc	16
	Maes Strategol 3 - Cymunedau	19
	Maes Strategol 4 - Gwasanaethau Cymraeg	21
	Maes Strategol 5 - Y Gweithle	24
	Maes Strategol 6 - Y Seilwaith	26
ADRAN 7	Casgliad	29
ADRAN 8	Atodiad 1	30
	Bran yr Aelodau Etholedig	33

# ADRAN 1

## 1. CYFLWYNIAD YSTADEGOL

1.1.1 Gwelwyd nifer a chryfder y cymunedau ledled Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg fel y cyfrwng cyfathrebu pennaf o ddydd i ddydd yn gostwng yn barhaus yn ystod yr ugeinfed ganrif.

1.1.2 Yn ystod y degawdau diwethaf, gellir priodoli'r golled yn nifer y cymunedau a fu bron yn gyfan gwbl Gymraeg eu hiaith cyn hynny, i'r ffactorau canlynol:

- diffyg trosglwyddo iaith yn y teulu
- diffyg cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Gymraeg
- allfudo pobl ifanc
- diffyg cyfleoedd gwaith
- diffyg argaeledd tai a thai fforddiadwy
- mewnfudo poblogaethau di-Gymraeg

1.1.3 Mae'r holl ffactorau hyn yn berthnasol i sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru, ac yn fwy penodol i sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd heddiw.

1.1.4 Y cyfrifiad yw'r prif ffynhonnell data ar gyfer dadansoddi sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg, gan ein galluogi i ddwyn cymariaethau rhwng y data fesul degawd.

1.1.5 Er hynny, cymharol gyfyngedig yw'r darlun a geir, ac er mwyn llenwi'r bylchau, mae angen hefyd ystyried ystod o dystiolaeth ansoddol sydd ar gael i ddarlunio sefyllfa'r Gymraeg, ynghyd ag ystyried barn cymunedau ac unigolion, arferion gweithredu, ac arfer dda. Caiff y Strategaeth hon ei seilio ar yr holl ystod yma o dystiolaeth.

1.1.6 Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod 562,000, sef 19% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg. Dengys y canlyniadau hyn ostyngiad ers Cyfrifiad 2001, pryd y gwelwyd cynnydd am y tro cyntaf yn nifer a chanran y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg, o 508,100, sef 18.7% yn 1991, i 582,400, sef 20.8% yn 2001.

1.1.7 Gwelwyd gostyngiad felly o 20,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng 2001 a 2011. Casglodd Llywodraeth Cymru – fel rhan o'r gwaith o ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth *Iaith Fyw: Iaith Byw* - fod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu colli bob blwyddyn ar hyn o bryd, a hynny yn bennaf oherwydd y gwahaniaeth rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n allfudo o Gymru, a'r nifer sy'n mewnfudo i Gymru.


1.1.8 Yn 2011, gwelwyd gostyngiad yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn 18 o'r 22 sir yng Nghymru, gyda'r cwmp ar ei waethaf yn siroedd y gorllewin; Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin, fel y dengys y tabl isod:

SIR	2001		2011		NEWID	
	NIFER	%	NIFER	%	NIFER	%
GWYNEDD	77,846	69%	77,000	65.4%	-846	-3.6
YNYSMÔN	38,839	60.1%	38,568	57.2%	-352	-2.9
CEREDIGION	37,918	52.0%	34,964	47.3%	-2,954	-4.7
SIR GAERFYRDDIN	84,196	50.3%	78,048	43.9%	-6,148	-6.4

1.1.9 Gwelwyd twf o 153,000 ym mhoblogaeth Cymru rhwng 2001 a 2011, a gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r twf hwn i fewnfudo. Rhwng 2001 a 2011, gwelodd Gwynedd gynnydd o 4,700, sef 4% yn y boblogaeth, Ynys Môn gynnydd o 2,100, sef 3.1%, Sir Gaerfyrddin gynnydd o 10,300, sef 6%, a Cheredigion fawr o newid o gwbl.

1.1.10 Er gwaetha'r twf yn y boblogaeth, Gwynedd yw'r sir gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru, ac mae'r iaith yn rhan gwbl greiddiol o fywyd pob dydd yma.

1.1.11 Dengys Cyfrifiad 2011 bod amrywiaeth eang iawn yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg ar draws y sir, gyda'r canrannau uchaf yn huanu o wardiau Llanrug (87.8%) a Pheblig (87.4%) yng Nghaernarfon. Gwelir y canrannau'n gostwng wrth fynd i gyfeiriad Bangor (36.4%), a'r ardaloedd arfordirol ym Meirionnydd megis Aberdyfi (35.5%). Er hyn, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dwy, sef ward Menai (18.6%) a ward Deiniol (22.8%) ym Mangor.



1.1.12 Dengys y cyfrifiad arwyddion o newid hefyd yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith, gyda'r newid ar ei amlycaf yn y cymunedau hynny lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

1.1.13 Rhwng 1991 a 2001, gwelwyd nifer yr ardaloedd yng Ngwynedd lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn gostwng o 61 ardal yn 1991, i 42 yn 2001, gan ostwng ymhellach i 39 yn 2011. Y tair ward sydd wedi gostwng o dan 70% yn ôl Cyfrifiad 2011 yw: Y Felinheli, Dolbenmaen a De Dolgellau.

1.1.14 Yn 2011, gwelwyd hefyd nifer o gymunedau eraill a ystyrir yn gadarnleoedd i'r iaith Gymraeg yn gostwng yn agos at y trothwy 70% yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, megis:

WARD				
Llanberis	1,568	80.5%	1,464	74.7%
Penisarwaun	1,230	74.1%	1,201	70.6%
Llanaelhaearn	1,180	78.1%	1,197	73.8%
Morfa Nefyn	955	77.1%	860	72.0%
Llandderfel	1,039	72.7%	1,033	70.8%
Trawsfynydd	1,141			

1.1.15 Gwelwyd gostyngiadau nodedig eraill yn wardiau Gorllewin Porthmadog, Abersoch, a Brynchrug.

1.1.16 Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y Gymraeg yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith, megis ffactorau economaidd, swyddi a thai, mewnfudo ac allfudo. Gwna'r rhain i gyd y dasg o ddadansoddi a diffinio sefyllfa'r iaith mewn unrhyw ardal yn anodd, a chydabyddir fod yr effaith a gaiff rai o'r ffactorau hyn ar rai ardaloedd yn fwy dwys na'i gilydd. Amlygir hynny'n bennaf yn yr ardaloedd arfordirol a'r ardaloedd hynny sydd wedi profi'n boblogaidd gyda mewnfudwyr.

1.1.17 I ategu hyn, dengys Cyfrifiad 2011 ostyngiad sylweddol yng nghanran y boblogaeth 60+ oed sydd yn gallu siarad Cymraeg, gan gadarnhau'r patrwm o'r genhedlaeth hŷn yn mewnfudo i'r sir. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried y newid yn strwythur oedran y boblogaeth yng Ngwynedd rhwng 2001 a 2011:

OEDRAN	NEWID
0-15	-7.7%
16-64	+4.6%
65+	+13.9%

1.1.18 Cydnabu Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-2013 fod Gwynedd yn sir sydd wedi profi mewnfudo ar raddfa uchel a chyson, a bod y patrwm hwn bellach wedi ei hen sefydlu mewn sawl ardal. Mae angen gofyn y cwestiwn, felly; i ba raddau yr ydym yn llwyddo i integreiddio'r ail a'r drydedd genhedlaeth o fewnfudwyr i'r ardal?

1.1.19 Yn gyffredinol, mae allfudo o'r sir ar ei fwyaf amlwg yn y grwpiau oedran iau, sydd yn pwysleisio pa mor allweddol yw ffactorau megis gwaith a thai fforddiadwy, a bod perthynas allweddol rhwng tai, iaith a gwaith, a bod angen trefniadau cadarn ar gyfer y seilwaith ynghlwm ag unrhyw Strategaeth Iaith.

1.1.20 Ar nodyn cadarnhaol, gwelodd rhai ardaloedd o Wynedd gynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn 2011, megis Waunfawr, Ogwen, Y Groeslon, Llanbedr, Corris/Mawddwy, a Chlynnog, a arweiniodd at gynnydd yn ôl dros y trothwy 70%.

1.1.21 Dengys Cyfrifiad 2011 hefyd gynnydd yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 3-4 oed, a 5-15 oed yng Ngwynedd, sef:

CYFRIFIAD	2001	2011	NEWID
3-4 oed	1,997 70.9%	1,997 73.0%	0 +2.1%
5-15 oed	14,468 91.8%	13,038 92.3%	-1,430 +0.5%

1.1.22 Yng Ngwynedd, credir bod oddeutu 83% o siaradwyr Cymraeg y sir yn rhugl; y canran uchaf o holl siroedd Cymru, a chredir fod 90% o siaradwyr rhugl yng Ngwynedd yn siarad Cymraeg bob dydd.

1.1.23 Mae dau gwestiwn sylfaenol i'r Strategaeth hon, felly:

**A yw'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd heddiw yr un mor gadarn ac y bu yn y gorffennol?**

**Beth all y Strategaeth hon ei wneud i gyfrannu tuag at sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg?**



## ADRAN 2

### 2. DEDDFWRIAETH A PHOLISI CENEDLAETHOL

2.1.1 Bu i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sefydlu'r egwyddor fod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Prif delerau'r ddeddf oedd:

- gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gan gyflawni hynny drwy gyfrwng cynlluniau iaith
- rhoi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys barn yng Nghymru
- sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.1.2 Deunaw mlynedd yn ddiweddarach, cafwyd deddfwriaeth pellach, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sicraodd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd i'r iaith, yn ogystal â chreu swydd Comisiynydd y Gymraeg.

2.1.3 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, gan weithio ar sail yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd yn ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid pobl i ddefnyddio'r iaith, gan weithio hefyd ar y sail y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.1.4 Mae'r Mesur hefyd yn creu safonau yn ymwneud â'r Gymraeg, gan osod dyletswydd ar sefydliadau i gwrdd â'r safonau hynny. Yn ystod oes y Strategaeth hon bydd y safonau hyn yn raddol ddisodli'r system bresennol o Gynlluniau Iaith.

### 2.2 IAITH FYW: IAITH BYW 2012-2017

2.2.1 *Iaith Fyw: Iaith Byw* yw dogfen bolisi pum mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, ac fe'i chyhoeddwyd yn 2012. Gweledigaeth y Llywodraeth yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Bwriad y ddogfen yw camu tuag at nod tymor hir y Llywodraeth, sef 'sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd'.

2.2.2 Er mwyn cyflawni hynny, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld:

- cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio
- rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgîl defnyddiol mewn bywyd modern
- sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau
- lle amlwg i'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol.

2.2.3 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'r Llywodraeth am weld y cyfrifoldeb am hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei wreiddio a'i rannu ymysg nifer cynyddol o sefydliadau ar draws Cymru.

2.2.4 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod dwy elfen graidd i wireddu ei gweledigaeth. Yn gyntaf, drwy fesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i **gaffael yr iaith**, fel annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref a sicrhau twf pellach mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Ac yn ail, drwy

**fesurau i alluogi ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol, drwy greu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wrth eu gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau, ac wrth fwynhau adloniant a hamdden.**

## ADRAN 3

### 3. Y FETHODOLEG

3.1.1 Ystyrir bod dwyieithrwydd yn fygythiad i rai ieithoedd lle nad oes dwyieithrwydd cytbwys, a lle gwelir goruchafiaeth yr iaith ryngwladol, rymus dros yr iaith frodorol, draddodiadol.

3.1.2 Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd ble ceir un iaith yn goruchafu ar iaith arall, awgryma tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol ei bod yn bosib creu'r amgylchiadau cywir fyddai'n galluogi'r iaith wannaf, leiafrifol i ffynnu. Cyflawnir hynny drwy osod ffiniau cadarn, gyda'r naill iaith a'r llall yn cael y lle blaenllaw mewn meysydd penodol o fywyd, megis bywyd cymdeithasol, gwaith ac ati. Bryd hynny y mae modd sefydlu dwyieithrwydd gwirioneddol.

3.1.3 Mae'n bwysig felly i'r Strategaeth hon ganolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo'r Gymraeg yn hytrach na dwyieithrwydd, gan greu'r amgylchiadau priodol i alluogi'r iaith i ffynnu.

3.1.4 At hyn, mae profiad Gwlad y Basg yn cadarnhau'r angen i bobl weld gwerth yn yr iaith er mwyn sicrhau ei ffyniant:

*'It is necessary for a community wishing to give new life to its language to comprehend, internalise, and truly feel its language's value'.<sup>1</sup>*

3.1.5 O ganlyniad, mae cadarnhau gwerth yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd hefyd yn nod bwysig i'r Strategaeth, a hynny ymysg pobl o bob oed a chefnidir.

3.1.6 Mae'r defnydd a wneir o'r Gymraeg hefyd yn ffactor allweddol o safbwynt atgyfnerthu'r Gymraeg yng Ngwynedd. Fodd bynnag, y mae'r defnydd a wneir o iaith mewn cyd-destun dwyieithog yn fater cymhleth a sensitif ac yn ymwneud â'r:

- defnydd a wneir o'r iaith yn y cartref
- hyder yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith
- cyfleoedd naturiol a dyddiol i ymarfer yr iaith.

3.1.7 Ffrwyth cyfuniad amrywiaeth eang o ffactorau yw ymddygiad ieithyddol ac agweddau tuag at yr iaith. Wrth i siaradwyr gaffael a datblygu eu sgiliau, mae eu profiadau yn dylanwadu ar ba mor rhugl fyddant, wrth iddynt ddod i gysylltiad â'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

3.1.8 Ers yr 1970au, gwnaed sawl ymgais i ddatblygu modelau ar gyfer adfywio iaith, ac un o'r rhai mwyaf dylanwadol oedd gwaith Joshua Fishman, *Reversing Language Shift* (1991). Mae 'Olwyn' Strubell (2001) yn addasiad o waith Fishman, ac yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng y ffactorau canlynol:

- gallu ieithyddol
- y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith
- y cynnyrch sydd ar gael yn yr iaith a'r galw amdanynt
- y cymhelliant i ddysgu'r iaith a'i defnyddio.

---

<sup>1</sup> Garabide Elkartea, *The Basque Experience: Some Keys to Language and Identity Recovery* (2010), t. 8.

3.1.9 Yn Policy to Outcome Pathway, Grin a Moing (2002), ystyrir bod angen cyfuniad o dair amod er mwyn sicrhau bywiogrwydd ieithyddol, sef:


- **y gallu** i ddefnyddio iaith
- **y cyfleoedd** i'w defnyddio
- **yr awydd** i'w defnyddio.

3.1.10 Ategir hyn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi adnabod Fframwaith Cysyniadol ar gyfer y berthynas rhwng cyd-destun defnydd, sgiliau iaith ac agweddau tuag at yr iaith. Credir bod angen ychwanegu seilwaith at y model hwn, gan awgrymu bod polisiau lleol a chenedlaethol yn ffactorau dylanwadol allweddol ar yr iaith hefyd.

3.1.11 Rôl hunaniaith felly fydd cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd posib ar fywyd, ynghyd â dangos ffyrdd o rymuso'r Gymraeg mewn ardal ddwyieithog. Mae hunaniaith yn cydnabod y fframwaith ac yn ceisio gwau'r Strategaeth hon o amgylch y cysyniadau canlynol.

## FFRAMWAITH I FESUR BYWIOGRWYDD IEITHYDDOL

(Policy to Outcome Model, Grin a Moing 2002)




## ADRAN 4

### 4. GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH GWYNEDD

- 4.1.1 Bwriedir cyflawni prif elfennau'r Strategaeth hon mewn cydweithrediad agos â rhai cymunedau, a thrwy weithio'n strategol er mwyn prif-ffrydio'r iaith Gymraeg a chynllunio ieithyddol fel rhan greiddiol o gynlluniau, strategaethau, rhaglenni, polisiâu, prosiectau a gweithgareddau a ddarperir ac a gynhelir eisoes yng Ngwynedd.
- 4.1.2 Golyga hyn fod yr iaith Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn dod yn rhan naturiol o bolisi a gweithrediad cynlluniau economaidd, adfywio, cynllunio, polisi tai , addysg a chymhathu. Hyn oll ar y cyd ag ymgyrchoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a gynhelir gan gymunedau yn uniongyrchol eu hunain.
- 4.1.3 Bydd angen i'r Strategaeth fesur i ba raddau y llwyddir i wau'r elfennau hyn gyda'i gilydd, sut mae polisiâu eraill yn cyfrannu at ffyniant yr iaith, ac adnabod a dylanwadu ar bolisiâu pan fyddant yn rhwystro ac yn hwyluso'r Gymraeg.
- 4.1.4 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod mai anodd yw darganfod y dystiolaeth ddiriaethol a chadarnhaol.
- 4.1.5 Mae'n bwysig felly i Strategaeth Iaith Gwynedd ddatblygu a sefydlu fframwaith werthuso i gydfynd â'r Cynllun Gweithredu. Dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad â datblygiadau cenedlaethol er mwyn gallu cyfrannu tuag at y sylfaen dystiolaeth gyffredinol.
- 4.1.6 O ystyried ei leoliad dylanwadol yng Nghyngor Gwynedd a'i rwydweithiau aml-asiantaethol, gall hunaniaith weithio mewn partneriaeth ar draws ystod eang o adrannau a sefydliadau, sectorau a chymunedau i gyflawni gofynion y Strategaeth hon.

Caiff hunaniaith ei weithredu fel rhan o'r strwythur canlynol:



## ADRAN 5

### 5. Y WELEDIGAETH

5.1.1 Hon yw'r ail Strategaeth Iaith i Wynedd, a bydd yn adeiladu ar lwyddiannau'r Strategaeth flaenorol, gan edrych ymlaen dros y 4 blynedd nesaf.

5.1.2 Gweledigaeth y Strategaeth hon yw:

*Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd*

5.1.3 Dros y 4 blynedd nesaf, ceisir gwireddu'r profiadau canlynol:

- Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gweld gwerth i'r iaith ac yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau
- Y Gymraeg yn gyfrwng naturiol o fewn cymunedau Gwynedd a chynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd
- Cymunedau Cymreig wedi eu grymuso i gefnogi'r iaith a'r dirywiad o fewn cymunedau penodol yn cael ei arafu/atal
- Gwasanaethau Cymraeg ar gael yn eang yn y Gymraeg ac yn cael eu defnyddio yn rhwydd ac yn hwylus
- Y Gymraeg wedi ei sicrhau fel iaith gwaith a phob gweithiwr yn cael y cyfle a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith
- Y Gymraeg yn cael ei integreiddio'n naturiol i gynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol a chenedlaethol
- Hyder, agwedd gadarnhaol ac ymwybyddiaeth dda o'r iaith Gymraeg a'i defnydd a'i gwerth ym mhob rhan o fywyd yn y Sir.

5.1.4 Yn cyd-fynd â'r weledigaeth, gosodwyd targed meintiol tymor hir yn y Strategaeth Iaith flaenorol, ac ategir y targed meintiol hwn ar gyfer y Strategaeth hon, sef:

*Sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021.*

5.1.5 Seilir y Strategaeth hon ar chwe maes strategol. Bwriedir gwau'r meysydd strategol i gysyniadau'r fframwaith fesur sydd yn sicrhau bywiogrwydd ieithyddol; sef y gallu i ddefnyddio'r iaith, y cyfleoedd i'w defnyddio, ynghyd â'r awydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.1.6 Dyma'r chwe maes strategol a gynhwysir yn y Strategaeth:

- |                           |                      |
|---------------------------|----------------------|
| • <b>Maes Strategol 1</b> | Y Teulu              |
| • <b>Maes Strategol 2</b> | Plant a Phobl Ifanc  |
| • <b>Maes Strategol 3</b> | Cymunedau            |
| • <b>Maes Strategol 4</b> | Gwasanaethau Cymraeg |
| • <b>Maes Strategol 5</b> | Y Gweithle           |
| • <b>Maes Strategol 6</b> | Y Seilwaith          |

## ADRAN 6

### 6. Y MEYSYDD STRATEGOL

#### 6.1 MAES STRATEGOL 1: Y TEULU

**Gweledigaeth:**

Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Teulu.

**Canlyniad:**

Cynydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant.

**Dangosydd:**

% plant 4 oed, dosbarth derbyn ysgolion cynradd Gwynedd, sydd yn gallu siarad Cymraeg.

- 6.1.1 Mae *laith Fyw: laith Byw 2012-2017* yn nodi pwysigrwydd teuluoedd i gynllunio ieithyddol yng Nghymru, gan ddatgan fod addysg, ynghyd â throsglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf, yn elfennau angenrheidiol i gynnal iaith.
- 6.1.2 Yn ôl adroddiad *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith* (Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013) gall proffil iaith y gymuned, a statws yr iaith o fewn y gymuned honno, fod yn ffactorau pwysig yng nghyd-destun trosglwyddo iaith. Ategir hyn gan adroddiad *Asesiad Effaith: Twf ac Ymlaen* (Prifysgol Bangor, 2008) sy'n awgrymu fod cysylltiad rhwng y ffactorau hyn ag awydd rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant.
- 6.1.3 Dengys tystiolaeth bod y siawns y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd yn y cartref yn cynyddu o ffactor o ddwywaith a hanner, pan fo pawb yn y cartref hwnnw yn medru'r Gymraeg. Mae'r cartref, felly, yn adnodd cymdeithasol hynod bwysig o safbwynt ieithyddol. Sefydlir patrymau iaith rhieni wrth siarad gyda'u plant yn gynnar iawn, ac mae'r patrymau sefydledig yma yn parhau drwy'r blynyddoedd cynnar.
- 6.1.4 Yn ôl Cyfrifiad 2011, dangoswyd bod 90% o blant 3-4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg pan fydd 2 riant yn siarad Cymraeg yn y cartref. Gwelir y ganran yn gostwng i 82% mewn cartrefi gyda rhiant sengl yn siarad Cymraeg; ac yn gostwng ymhellach i 63% pan mai dim ond un o ddau riant sydd yn siarad Cymraeg; a gwelir gostyngiad pellach i 35% mewn cartrefi ble nad oes siaradwyr Cymraeg o gwbl.
- 6.1.5 Mae nifer y cartrefi ble mae rhiant sengl yn byw gyda'r plant wedi cynyddu yn sylweddol yng Ngwynedd, byddai yn fuddiol adnabod y teuluoedd hynny sy'n ei chael hi'n anodd cefnogi'r plant yn ieithyddol, er mwyn cynnig arweiniad iddynt.
- 6.1.6 Dengys tystiolaeth hefyd fod angen ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n galluogi plentyn i ymarfer iaith, megis darllen stori, chwarae gemau, adnabod llythrennau; gan eu cyflwyno mor gynnar â phosib ym mywyd y plentyn.
- 6.1.7 Gwelir felly bod ansawdd yr amgylchedd dysgu yn y cartref yn dylanwadu ar allu plentyn i gaffael iaith, ac mae angen sicrhau cefnogaeth i alluogi rhieni i gynnal y mathau hyn o brofiadau er mwyn cefnogi datblygiad y plentyn yn ieithyddol ac yn gyffredinol.

- 6.1.8 Prosiect TWF yw un o'r prif ymyriadau sy'n ceisio dylanwadu ar drosglwyddo iaith yn y teulu. Pwrpas TWF yw rhoi cyngor a chefnogaeth i famau beichiog, mamau newydd a'u teuluoedd ynglŷn â manteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. Yng Ngwynedd, ceir tri swyddog TWF rhan amser yn gweithio ar draws y sir.
- 6.1.9 Mae Mudiad Meithrin yn allweddol bwysig yn y maes yma hefyd, ac yn darparu cyfleoedd i rieni a phlant ifanc ddod ynghyd mewn awyrgylch naturiol Gymraeg. Gwneir hyn drwy Gylchoedd Ti a Fi, ynghyd â Chylchoedd Meithrin sy'n cynnig gofal ac addysg sesiynol dyddiol i blant 2-5 oed. Ynddynt, rhoddir cyfle i blant ddatblygu sgiliau cymdeithasol a phrofiadau dysgu drwy chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.1.10 Mae'r Mudiad hefyd yn cyflogi Swyddogion Cefnogi Iaith sydd yn gweithio gyda'r Cylchoedd Meithrin i hyrwyddo'r Gymraeg gyda rhieni a gwirfoddolwyr. Ceir dwy Ganolfan Integredig sy'n cefnogi'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd; y naill yng Nghaernarfon a'r llall ym Mlaenau Ffestiniog.
- 6.1.11 O fewn rhaglenni ymyrraeth gynnar, megis Dechrau'n Deg a'r Cynllun Iaith a Chwarae, ceir tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnig amrywiaeth o sesiynau Cymraeg i rieni a phlant ifanc; megis sesiynau stori, sesiynau canu, sachau stori, dawnys a nofio. Mae'r timau amlddisgyblaethol hyn yn gweithio gyda rhieni ledled y sir er mwyn tanlinellu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, gan arddangos y dulliau posib o drosglwyddo'r iaith yn gynnar ym mywyd plentyn. Mae nifer o'r rhaglenni yma'n weithredol yn yr ardaloedd difreintiedig yng Ngwynedd, gyda chyfle i ledaenu arfer da i ardaloedd eraill.
- 6.1.12 At hyn, yn 2012, lanswyd cwrs Cymraeg i'r Teulu, er mwyn rhoi cyfle i rieni ddysgu iaith ar lefel Mynediad, ac a gynlluniwyd i gyd-fynd â'r Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas agos yn datblygu yng Ngwynedd rhwng Canolfannau Cymraeg i Oedolion y Gogledd a'r Canolbarth, er mwyn cwrdd â gofynion Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd, ac efallai bod cyfle i gynllunio'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion hyd yn oed ynghynt ar gyfer y blynnyddoedd cynnar hefyd.
- 6.1.13 Mae datblygu sgiliau ac ymagwedd rhieni felly yn allweddol i lwyddiant y plentyn i gaffael iaith.
- 6.1.14 **Blaenoriaethau Strategol**

#### **Gallu**

- Ymestyn cyfleon anffurfiol cyson i rieni i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn eu galluogi i gynorthwyo eu plant i gaffael a magu hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Ymestyn darpariaeth Cymraeg i Oedolion i gynnig amrywiaeth o gyrsiau fydd yn cynyddu hyder a sgiliau rhieni i gaffael a defnyddio'r Gymraeg.

#### **Awydd**

- Hybu manteision trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu a manteision y Gymraeg i'w plant, gan greu neges gyson ar draws y sector
- Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd darparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd.



## 6.2 MAES STRATEGOL 2: PLANT A PHOBL IFANC

### Gweledigaeth:

Cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith, ynghyd â sicrhau gwell mynediad at weithgareddau cymdeithasol a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

### Canlyniad:

Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac yn gweld gwerth i'r iaith.

### Dangosydd:

% ysgolion cynradd Gwynedd sydd wedi ennill cydnabyddiaeth trwy weithredu *Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*.

% disgyblion BI 6 sydd wedi dangos cynnydd yn eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

% disgyblion BI 11 sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

% dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nifer sydd yn mynychu gweithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

- 6.2.1 Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 16,866 o blant a phobl ifanc 3-15 oed yn byw yng Ngwynedd, sy'n adlewyrchu 14.3% o'r holl boblogaeth. O'r rhain, mae 1,997, sef 73% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg, a 13,038, sef 92% o blant 5-15 oed yn gallu siarad Cymraeg.
- 6.2.2 Dengys y data uchod lwyddiant Cynllun Addysg Gymraeg Gwynedd i ddatblygu sgiliau iaith ymysg plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ni all y Cyfrifiad ddweud wrthym faint o ddefnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd a thu allan i'r ysgol.
- 6.2.3 Nod uchelgeisiol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2013-2014 Gwynedd oedd: *"...sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni."*
- 6.2.4 Rhwng 2002 a 2012, gwelwyd canran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu, ond yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad yn nifer y plant sy'n byw yn y sir, fel y dengys y tabl:

	2002		2012		NEWID
	NIFER	%	NIFER	%	NIFER %
<b>GWYNEDD</b>	1,249	93.2%	1,181	98.4%	- 68 + 5.2 %

- 6.2.5 Dengys astudiaethau fod plant sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn dueddol o barhau i ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Mae hon yn

neges bwysig i ysgolion wrth iddynt geisio dylanwadu ar rieni a phlant yng nghyswllt dewis iaith astudio.

- 6.2.6 Fodd bynnag, yng Ngwynedd gwelir nifer y disgyblion sydd yn astudio eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gostwng wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, gan ostwng ymhellach eto wrth fynd i fyny'r ystod oedran ac at addysg bellach ac uwch. Mae dilyniant ieithyddol
- o ran cynllunio addysg Gymraeg yn flaenoriaeth genedlaethol, ac fe'i diffinnir fel a ganlyn: '*parhau i astudio Gymraeg iaith Gyntaf a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg*'.
- 6.2.7 I ategu hyn, dengys ymchwil fod gwerth ymarferol; yn addysgol, yn gymdeithasol ac yn economaidd;
- o fod yn gallu siarad mwy nag un iaith. Yng Nghymru, mae pobl ddwyieithog yn ennill ar gyfartaledd rhwng 8-10% yn fwy o'u cymharu â phobl unieithog.
- 6.2.8 Mae ymchwil academaidd yn cadarnhau fod plant dwyieithog yn fwy creadigol, ac yn cael canlyniadau gwell mewn profion IQ na phlant unieithog. O ganlyniad, mae'n bwysig bod arweiniad a negeseuon cyson yn cael eu cyflwyno ynglŷn â manteision dwyieithrwydd.
- 6.2.9 Mae Adran Addysg Gwynedd hefyd yn gyfrifol am gynnal canolfannau hwyrddyfodiaid sydd yn darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr ifanc er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r canolfannau hyn hefyd yn cynnal cwrs byr i rieni a elwir yn *Byw yng Nghymru*, a hynny mewn cydweithrediad rhwng hunaniaith ac Adran Addysg Gwynedd.
- 6.2.10 Gwyddwn, os yw'r Gymraeg am oroesi yng Ngwynedd, bod rhaid i'r iaith fod yn gyfrwng cyfoes a pherthnasol i blant a phobl ifanc yn eu bywydau bob dydd. Er mwyn cyflawni hynny, a thrwy gydweithio rhwng hunaniaith, Adran Addysg Gwynedd a Llywodraeth Cymru, datblygwyd *Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*.
- 6.2.11 Bwriad y *Siarter* yw hybu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg; yn syml cael plant i siarad Cymraeg, ac mae'r *Siarter* bellach yn weithredol yn holl ysgolion cynradd Gwynedd.
- 6.2.12 Datblygwyd y *Siarter* yn sgîl data a thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwaith o gyflawni *Asesiad Ardrawiad Ieithyddol Cynllun Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd* yn 2008. Ynddo, rhoddwyd manylion am yr iaith a ddefnyddir yn y dosbarth, yn y ffretur ac ar y buarth yn holl ysgolion cynradd Gwynedd.
- 6.2.13 Er mwyn cefnogi'r ysgolion i gyflawni gofynion y *Siarter*, a gweithredu cynlluniau fydd yn annog plant i siarad Cymraeg ac yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith, sefydlwyd swydd newydd yn 2013, ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd, i gydlynu'r gwaith.
- 6.2.14 Yn ystod 2014 cynhaliwyd Awdit Ieithyddol ar agweddau a defnydd iaith disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) ar draws y Sir, sydd wedi cynnig arweiniad i ysgolion unigol lunio eu rhaglenni gweithredu eu hunain.
- 6.2.15 Mae gwaith wedi cychwyn i ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r *Siarter* yn yr ysgolion cynradd - drwy gynllun strategol y Cyngor - i gynnal archwiliad ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd, fydd yn sail i lunio rhaglen weithredu gan y disgyblion eu hunain i gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol ymysg pobl ifanc.
- 6.2.16 Daw hyn mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan bobl ifanc yn ystod y broses ymgynghori ar *Gynllun Gweithredu Drafft Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-2013* a amlygodd mai cyfrwng addysg

yn unig oedd y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o Wynedd, ac nad oedd cyfleoedd cymdeithasol digonol ar gael i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i oriau ysgol.

- 6.2.17 Cadarnhawyd hyn ymhellach yn 2013, mewn ardaloedd fel Dolgellau, pan gynhaliwyd gwaith ymgynghorol i broffilio anghenion ieithyddol yr ardal. Yn Nolgellau, dywedodd y bobl ifanc bod dwy gymuned ieithyddol ar wahân yn bodoli yno, gyda phrin ddim cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg oni bai eich bod yn teithio y tu allan i'r ardal.
- 6.2.18 Yn ystod y broses ymgynghori ar *Gynllun Drafft Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-13*, amlygwyd hefyd bod tensiynau cymdeithasol yn bodoli rhwng pobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg, a bod iaith y cylch cyfeillion yn ffactor allweddol wrth bennu defnydd iaith.
- 6.2.19 Yn ystod y gwaith ymgynghori a thrafod a oedd yn sail i lunio'r Strategaeth hon, un o'r prif negeseuon a godwyd dro ar ôl tro oedd yr angen i godi hyder pobl yn eu sgiliau ieithyddol a'u defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn ategu'r sylwadau a dderbyniwyd mewn sesiynau ymgynghori blaenorol, pan ddywedwyd bod angen meithrin hyfedredd a hyder plant a phobl ifanc, gan roi llai o bwyslais ar ddysgu iaith ffurfiol, a mwy o bwyslais ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn siarad â'i gilydd yn Gymraeg. Mae angen creu'r awydd felly ymysg plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad wyneb yn wyneb ac yn enwedig wrth iddynt gyfathrebu drwy ddefnyddio technoleg.
- 6.2.20 Bydd y gwaith o annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, drwy gyfrwng y *Siarter Iaith*, ac hefyd yn yr ysgolion uwchradd, yn allweddol er mwyn cyflawni hyn. Bydd gan ddarparwyr megis y Gwasanaeth Ieuencid, Yr Urdd, a'r Ffermwyr Ifanc rôl allweddol i'w chwarae yn y gymuned.

#### 6.2.21 Blaenoriaethau Strategol

##### **Gallu**

- Arfogi athrawon i'w galluogi i gynnal gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ar sail y gwaelodlin, gweithredu ymyriadau yn yr ysgolion uwchradd er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth y Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith a hyfforddiant.
- Codi ymwybyddiaeth gweithwyr ieuencid ac unigolion sy'n ymwneud â'r maes hamdden a chwaraeon o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

##### **Cyfle**

- Arfogi pob ysgol gynradd i weithredu gofynion gwobr efydd, arian ac aur *Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*.
- Cefnogi rhaglenni gweithredu yn yr ysgolion uwchradd er mwyn cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol.
- Datblygu sgiliau arwain ymysg pobl ifanc er mwyn iddynt ddatblygu'n arweinwyr yn eu cymunedau.

##### **Awydd**

- Gwella ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth yr iaith Gymraeg.

## 6.3 MAES STRATEGOL 3: CYMUNEDAU

### **Gweledigaeth:**

Hyrwyddo a grymuso cymunedau a'u helpu i gryfhau safle'r Gymraeg.

### **Canlyniad:**

Nifer y cymunedau gyda 70% o'r boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg wedi ei gynnal.

Lliniaru dirywiad pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny ble mae'r nifer sy'n gallu'r iaith eisoes wedi gostwng o dan 70% o'r boblogaeth.

### **Dangosydd:**

Nifer y gweithgareddau Cymraeg o fewn y cymunedau targed.

Nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir o ganlyniad i arian grant gan Lywodraeth Cymru.

- 6.3.1 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i ffyniant yr iaith, ac adlewyrchir y dwysedd hwn gan fwrlwm o weithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg. Mae'r gweithgarwch cymunedol a diwylliannol a gynhelir yn gyfrwng i sicrhau gwerth i'r iaith, yn ogystal â chreu'r ymdeimlad hollbwysig yna o berthyn i fro neu gymdeithas.
- 6.3.2 Mae sefydliadau megis yr Urdd, y Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Eisteddfodau lleol a llu o gymdeithasau lleol eraill yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal y Gymraeg mewn nifer o gymunedau. Mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am ddatblygu arweinwyr lleol, ac am gynnal gwirfoddolwyr, yn ogystal â chynnig gweithgareddau cymdeithasol hanfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.3.3 Er gwaethaf y bwrlwm hwn o weithgarwch mewn nifer o gymunedau yng Ngwynedd, gwelir bod mewnfudo ac allfudo yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg a'r rhwydweithiau cymdeithasol a gynhelir yn lleol, gyda'r effaith ar ei waethaf o bosib ar hyd arfordir Meirionnydd.
- 6.3.4 Mae hunaniaith yn gweithio'n gymunedol ar ddwy lefel, sef: hyrwyddo a grymuso cymunedau eu hunain i weithredu a chynyddu gweithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg, gan eu harfogi i fynegi barn ar bolisiau perthnasol; ac yn ail ar y lefel strategol a chyfannol wrth ymwneud â materion megis tai fforddiadwy, swyddi a chyflogaeth, ynghyd â sicrhau fod y Gymraeg wedi ei gwreiddio'n rhan annatod o gynllunio economaidd ac adfywio.
- 6.3.5 Er mwyn cyflawni hyn, bydd hunaniaith yn manteisio ar ei arbenigedd ym maes cynllunio ieithyddol, ac yn gweithio law yn llaw gyda chymunedau penodol a chyrrff perthnasol eraill er mwyn manteisio ar gyfleoedd fydd yn galluogi cymunedau i weithredu.
- 6.3.6 Gwelir hunaniaith fel arbenigwr cynllunio ieithyddol yng Ngwynedd, fel adnodd pwysig ar gyfer cefnogi ac arfogi cymunedau, ac fel eiriolwr ar ran y Gymraeg wrth gydweithio gyda'r rhai sydd yn gyfrifol am ddatblygu polisiau a chynlluniau strategol o fewn y Sir.
- 6.3.7 Bydd y Strategaeth hon yn gwneud defnydd bwriadol o'r tîm a'u sgiliau, yn targedu cymunedau penodol i'w cefnogi, ac yn gweithio gyda sectorau eraill i integreiddio'r Gymraeg i mewn i bolisiau a chynlluniau, megis:
- Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol
  - Tai a chynlluniau cymunedol tai/ Tai fforddiadwy

- Swyddi a chyflogaeth, gan gynnwys broceriaeth gyda chyflogwyr a datblygu sgiliau
- Adfywio a chynlluniau adfywio gwledig
- Gwasanaethau hamdden a chwaraeon.

6.3.8 Mae proffiliau ieithyddol wedi eu creu ar gyfer sawl ardal o Wynedd, gan gynnwys: Y Bala, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle, Y Felinheli, Bangor, a Phyllheli. Dengys y proffiliau hyn awydd ymysg y cymunedau i geisio sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn lleol, cefnogi ac annog dysgwyr, cryfhau'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc a dylanwadu ar eu defnydd o iaith, i ledaenu negeseuon am werth y Gymraeg ymysg busnesau, a'r angen am swyddi, tai fforddiadwy, a throsglwyddo iaith yn y cartref.

6.3.9 Ar sail y wybodaeth a geir o Gyfrifiad 2011 a thystiolaeth ansoddol ehangach, cynigir canolbwyntio ar y canlynol fel blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth hon:

- Cefnogi'r cymunedau sydd wedi gostwng o dan 70%, sef Y Felinheli, Dolbenmaen a De Dolgellau
- Cefnogi rhai cymunedau sydd wedi gostwng yn agos at y trothwy 70%, gan gynnwys: Llanberis, Gorllewin Porthmadog a Porthmadog/Tremadog a'u galluogi i weithio'n strwythuredig er mwyn atal dirywiad pellach.
- Rhoi sylw sylweddol i ardaloedd lle mae statws y Gymraeg a defnydd cymdeithasol o'r iaith yn isel, sef Bangor a Tywyn, gan fanteisio ar gyfleoedd drwy'r gyfundrefn addysg i weithio gyda rhieni, plant a phobl ifanc

#### 6.3.10 Blaenoriaethau Strategol

##### Gallu

- Cynnal a datblygu arbenigedd cynllunio ieithyddol fydd ar gael i gefnogi cymunedau gan gynnwys materion megis proffilio ieithyddol, datblygu polisiau iaith, grymuso gweithgareddau cymunedol Cymraeg, gosod targedau, gwerthuso a monitro cynnydd a lleadaenu arfer da.

##### Cyfle

- Sicrhau proffil ieithyddol safonol o fewn y cymunedau targed a chymunedau eraill yn ôl y galw, gan gynnwys ble datblygir rhaglenni tai a thai fforddiadwy.
- Grymuso cymunedau i weithredu cynlluniau fydd yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg.
- Cefnogaeth benodol i fentrau iaith cymunedol er mwyn eu galluogi i wireddu eu cynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Hwyluso grwpiau a phwyllgorau cymunedol i gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Ar sail dadansoddiad o anghenion, gweithio gyda grŵp cynrychiolwyr lleol i gynyddu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar hyd arfordir de Meirionnydd.

##### Awydd

- Gwella ymwybyddiaeth trigolion o safle'r Gymraeg yn eu cymunedau.

## 6.4 MAES STRATEGOL 4: GWASANAETHAU CYMRAEG

### **Gwledigaeth:**

Hybu a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn lleol.

### **Canlyniad:**

Mwy o wasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd.

Mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio.

Y safonau iaith perthnasol yn weithredol.

### **Dangosydd:**

Y defnydd a wneir o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nifer y cyrff sy'n cydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

- 6.4.1 Gosododd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ddyletswydd statudol ar gyrrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau.
- 6.4.2 Er hynny, ar ei ben ei hun nid yw darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn debygol o gynyddu defnydd o'r iaith. Mae angen cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd o fywyd er mwyn sicrhau ei ffyniant.
- 6.4.3 Ceir tystiolaeth helaeth fod carfan sylweddol o boblogaeth Cymru'n gefnogol o wasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 90% o siaradwyr Cymraeg ar draws y wlad o'r farn bod darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn elfen hollbwysig i gadw'r iaith yn fyw.
- 6.4.4 Ategir hyn gan Grin (2002) sydd yn nodi bod darparu gwasanaethau yn fodd o greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a bod defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn allweddol o ran hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith.
- 6.4.5 Fodd bynnag, ceir tystiolaeth hefyd bod diffyg defnydd o wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol, a hynny'n rhannol oherwydd diffyg hyder ymysg siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth bod gwasanaethau penodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys gwasanaethau bancio, ar-lein a thros y ffôn).
- 6.4.6 Cyhoeddwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) yn 2011, ac ymysg nifer o newidiadau pwysig, mae'r Mesur yn:
- Rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.
  - Sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg.
  - Creu darpariaeth ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
  - Creu trefn o gyflwyno dyletswydd ar ffurf safonau iaith

- 6.4.7 Mae'r Mesur yn cynnwys fframwaith ar gyfer gosod dyletswydd ar rai cwmnïau preifat a'r trydydd sector i gydymffurfio â'r safonau, ac yn rhoi grym i'r Comisiynydd orfodi cwmnïau neu sefydliadau i gydymffurfio.
- 6.4.8 Dros amser bydd y Cynlluniau Iaith unigol yn cael eu disodli gan y safonau newydd, gan arwain at well eglurder o ran pa wasanaethau y gellid disgwyl eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â gosod safon cyson o wasanaethau Cymraeg ar draws gwahanol sefydliadau.
- 6.4.9 Mae rhai cyrff bellach yn rhoi dyletswydd ar eu hunain i ddarparu gwasanaethau yn ôl gofynion ieithyddol eu cwsmeriaid. Mae mwy o gyflogwyr bellach yn sylweddoli bod gweithle ble caiff pawb eu trin gydag urddas a pharch, a ble y caiff sgiliau eu gwerthfawrogi, yn weithle hapusach a mwy cynhyrchiol o lawer.
- 6.4.10 Bydd dyletswydd ar nifer o gyrff i ddarparu'r hawl i'w staff allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg o dan y safonau newydd. Gellir dadlau'n gryf bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn rheolaeth a gweinyddiaeth sefydliad yn creu amgylchedd o barch, gan arwain at well gwasanaeth i'r cwsmer.
- 6.4.11 Mae defnyddio'r Gymraeg ar gyfer gweinyddiaeth fewnol yn tanategu'r arfer o ddefnyddio'r iaith gyda chwsmeriaid, ac yn arwain at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg effeithiol ac o safon uchel, sy'n arfer da y gall gyrff sydd yn rhan o hunaniaith ei fabwysiadu fel esiampl sydd yn arwain y ffordd i eraill.
- 6.4.12 Fel corff sydd eisoes wedi gweithredu prosiectau ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, mae hunaniaith mewn sefyllfa i gyfarwyddo'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu'r safonau newydd a chreu modelau comisiynu fydd yn sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael.
- 6.4.13 Gyda llawer mwy o wasanaethau yn cael eu comisiynu, mae cryn newid ar y gorwel o ran y modd bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn y dyfodol. Mae goblygiadau amlwg ynghlwm â hyn o ran sicrhau y bydd gwasanaethau Cymraeg ar gael.
- 6.4.14 Yn Ebrill 2013, cynhaliwyd arolwg o ddefnydd y Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yng Nghyngor Gwynedd. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol: addysg, gwasanaeth cymdeithasol a phedair prif bartneriaeth y Sir.
- 6.4.15 Nododd yr arolwg nifer o argymhellion er mwyn gwella'r ffordd mae cyrff yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac er mwyn sicrhau hawl defnyddwyr i gael darpariaeth yn eu dewis iaith. Dyma rai o'r argymhellion perthnasol:
- Dylai uwch reolwyr ddangos ymrwymiad cadarn i'r Gymraeg wrth arwain trefniadau cydweithio, gan fynnu bod gofynion ieithyddol yn ymddangos ym mhob cytundeb.
  - Dylid adnabod ac asesu gofynion ieithyddol mewn dull safonol ar gyfer pob cytundeb sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth.
  - Dylid rhoi sylw digonol i sgiliau ieithyddol staff yn ôl gofynion y swydd.
  - Dylid codi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid o fanteision darparu gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog i'r defnyddiwr.
  - Dylid cynnig arweiniad ar gyfieithu.
  - Dylid codi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid a chyrrff a gomisiynir o'r manteision proffesiynol o gael staff sydd yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog.
  - Dylid addysgu staff i weithredu'n ddwyieithog, ac i sefydlu trefniadau swyddfa fyddai'n cefnogi gweithwyr di-Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau.

- 6.4.16 Yn y cyd-destun hwn, mae cefnogi a chryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac uwch, ac yn y maes iechyd a gofal yn hollbwysig, gan fod gallu darparu gwasanaethau dwyieithog yn y meysydd hyn naill ai'n angenrheidiol yn sgîl gofynion y defnyddiwr, neu'n allweddol o ran sicrhau sgiliau i allu parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.
- 6.4.17 Yn ôl Fframwaith Strategol 'Mwy Na Geiriau' gan Lywodraeth Cymru; 'Mae'n bwysig fod pobl sydd yn gweithio yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cydnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol. I lawer o siaradwyr Cymraeg mae'n rhaid i'w gallu i ddefnyddio eu iaith eu hunain gael ei weld fel elfen greiddiol o ofal, yn hytrach nag fel rhywbeth dewisol.<sup>2</sup>
- 6.4.18 Mae hunaniaith mewn sefyllfa gref i adeiladu ar ei rôl o weithio mewn partneriaeth i gyd-gynllunio rhaglenni hyrwyddo sgiliau dwyieithog, megis yr Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr, i gynnig rhaglenni magu hyder ymysg cyflogwyr, rheolwyr a staff: ac i gynnal ymgyrchoedd i annog y cyhoedd i ofyn am wasanaethau Cymraeg.

#### 6.4.19 Blaenoriaethau Strategol

##### Gallu

- Cytuno ar amodau partneriaeth a fframwaith sy'n diffinio ac yn amlinellu'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg wrth osod cytundebau a dyfarnu grantiau i gyrff cyhoeddus a gwirfoddol.
- Datblygu arweiniad ar gyfer cyflogwyr (ac yn enwedig felly cyrff sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol) ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gan gynnwys recriwtio staff ac uwch reolwyr sydd yn ddwyieithog, diffinio gofynion ieithyddol swyddi ar wahanol lefelau, paratoi dogfennau dwyieithog, cyfieithu ar y pryd a hyfforddiant i staff a rheolwyr.

##### Cyfle

- Bod y cyrff sy'n aelodau o Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau Dwyieithog hunaniaith yn gweithredu tuag at y Safonau Gwasanaeth, ac yn cydweithio ar gynllunio arferion da.
- Adnabod ble mae prinder staff dwyieithog o fewn y cyrff sy'n cydweithio â hunaniaith, a mynd ati i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd (ac ymysg pobl ifanc yn enwedig) am yr angen am unigolion gyda sgiliau cyfrwng Cymraeg yn y swyddi hyn.

##### Awydd

- Cydweithio i hybu gwerth y Gymraeg ymysg cyflogwyr a'u rheolwyr.

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, *Mwy Na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol* (2012), t. 6.



## 6.5 MAES STRATEGOL 5: Y GWEITHLE

### **Gweledigaeth:**

Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

### **Canlyniad:**

Y gweithlu yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

### **Dangosydd:**

% gweithlu partneriaid hunaniaith sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

- 6.5.1 Mae'r gweithle yn cynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg am swmp sylweddol o amser bob dydd. Mae hyn yn creu'r cyfle i'r gweithlu feithrin hyder a defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd; a hynny yn ei dro yn galluogi'r cyflogwr i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- 6.5.2 Yng Ngwynedd, mae statws y Gymraeg o fewn y gweithle yn bwysig fel dilyniant i Bolisi Iaith Addysg y sir, ac yn hynod bwysig i Gyngor Gwynedd, fel yr unig gorff cyhoeddus sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith ar gyfer gweinyddiaeth fewnol.
- 6.5.3 Ystyrir Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn arloesol ac yn flaengar yn sgîl ei ymrwymiad i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg gan sicrhau fod staff yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.
- 6.5.4 Er mai cymharol brin yw'r dystiolaeth yn y maes yma, gwyddom, o ymchwil ansoddol diweddar, bod rhai ffactorau amlwg sy'n rhwystr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, sef:
- teimlad o ddiffyg gallu yn y Gymraeg, ac yn sicr diffyg hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch ffurfiol, gan fod tuedd i bobl feddwl nad yw eu Cymraeg yn 'ddigon da'.
  - diwylliant y sefydliad yn atal defnydd o'r Gymraeg.
  - diffyg cefnogaeth ac anogaeth gan reolwyr i alluogi eu staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 6.5.5 Ategir hyn gan ymchwil a gynhaliwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2010. Nododd y cyrff a holwyd fel rhan o'r ymchwil mai bwlch o ran sgiliau a diffyg hyder yw un o'r prif rwystrau sydd yn atal staff rhag defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 6.5.6 Mae adolygiad Cynllun Brocer Iaith Pablig, Caernarfon, yn mynd gam ymhellach ac yn awgrymu bod gwahanol lefelau o sgiliau ieithyddol mysg y boblogaeth yn rhwystro pobl rhag ymgeisio am swyddi yn y lle cyntaf. Hynny yw, bod ymdeimlad cyffredinol o ofn nad yw eu Cymraeg yn 'ddigon da'.
- 6.5.7 Bwriad cynllun peilot Brocer Iaith Pablig oedd ymchwilio a threialu dulliau newydd o hyrwyddo'r iaith mewn perthynas â gwaith, gan ddod â gwasanaethau oedd eisoes yn bodoli at ei gilydd. Roedd y pwyslais ar gydgyssylltu'r gwasanaethau cyflogaeth a chynllunio iaith.
- 6.5.8 Roedd prif gasgliadau cynllun Brocer Iaith Pablig ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi'r angen i:
- sicrhau bod arferion da broceriaeth iaith yn cael eu hymgorffori ym mhob gweithgaredd economaidd ac adfywio

- darparu hyfforddiant sgiliau sylfaenol cyfrwng Cymraeg er mwyn arfogi siaradwyr Cymraeg i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r iaith ar gyfer gwaith, a theilwra'r hyfforddiant yn ôl anghenion gwahanol gymunedau
- cynyddu ymwybyddiaeth iaith ymysg cyrff sy'n darparu gwasanaethau cymunedol, yn ogystal â chyrff sy'n cynnig cyfleoedd gwaith
- gweithio gyda chyrff sy'n darparu gwasanaethau hyrwyddo cyflogaeth, er mwyn sicrhau eu bod hefyd yn hybu'r Gymraeg.

6.5.9 I'r perwyl hwn, mae Sgiliaith wedi derbyn cytundeb gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynnig darpariaeth ymwybyddiaeth iaith i'r trydydd sector ac i gwmnïau preifat. Cydnabu swyddogion Sgiliaith bod angen goresgyn nifer o ffactorau yn y maes, gan gynnwys:

- diffyg hyder staff i addysgu'n ddwyieithog
- diffyg adnoddau dysgu,
- diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith,
- diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol i'r rheiny sydd angen meithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

#### 6.5.10 Blaenoriaethau Strategol

##### **Gallu**

- Cynyddu sgiliau Cymraeg ac ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr lleol.
- Galluogi staff cyfundrefnau i weithredu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y man gwaith.
- Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg

##### **Cyfle**

- Cynyddu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol staff a sicrhau ymrwymiad staff y cyrff sy'n cydweithio gyda hunaniaith tuag at y Gymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth y sector breifat yng Ngwynedd am werth y Gymraeg a chynyddu cydnabyddiaeth fod y Gymraeg yn sgil werthfawr ar gyfer y gweithle.

##### **Awydd**

- Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil allweddol wrth recriwtio ymysg y rhai sy'n gyfrifol am swyddi a chyflogaeth.

## 6.6 MAES STRATEGOL 6: Y SEILWAITH

### **Gweledigaeth:**

Cyrff a gwasanaethau yn cydweithio i integreiddio'r Gymraeg mewn polisiau a gweithgareddau.

### **Canlyniad:**

Y Gymraeg wedi ei hintegreiddio yn naturiol i gynlluniau economaidd, adfywio a thai.

### **Dangosydd:**

Nifer y cynlluniau economaidd ac adfywio sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Nifer y cynlluniau tai sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

- 6.6.1 Un o'r negeseuon a ddaeth yn gyson o drafodaethau gydag unigolion proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedau wrth lunio'r Strategaeth hon oedd pwysigrwydd y berthynas rhwng yr economi, tai a'r iaith Gymraeg.
- 6.6.2 Mae gan Lywodraeth Cymru, trwy ei arweiniad polisi yn y maes economaidd, cynllunio a thai, rôl allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg a phrif-ffrydio'r iaith i gynlluniau cenedlaethol. Fodd bynnag, dengys rhai o raglenni economaidd mawr y gorffennol, megis Amcan 1 a Chydgyfeiriant na fu'r Llywodraeth ar y pryd yn flaengar yn rhoi lle canolog i'r Gymraeg yn y meysydd hyn.
- 6.6.3 Fodd bynnag, yng Ngwynedd, ceir enghraifft o gydweithio rhwng un o gynlluniau'r Cynllun Datblygu Gwledig, sef 'Llwyddo yng Ngwynedd' â hunaniaith. Un o brosiectau 'Llwyddo yng Ngwynedd' oedd 'Cymunedau Cynaliadwy', ac yn ystod y flwyddyn gyntaf rhoddwyd cefnogaeth i bump cymuned i gynnal awdit o'u hasedau ffisegol a chymunedol, a thrwy gefnogaeth hunaniaith, sicrhawyd y byddai awdit ieithyddol hefyd yn cael ei gyflawni a hynny drwy ddefnyddio'r fframwaith 'Gweithredu'n Lleol'. Y cymunedau hynny oedd: Dinas Mawddwy, Botwnnog, Y Bala (Penllyn), Dyffryn Ogwen ac Y Felinheli.
- 6.6.4 Bellach, ym Motwnnog ceir Menter Cymydmaen Cyf sydd yn gyfrifol am hwb bwyd a chynnyrch lleol, drwy alluogi pobl i fentro ac arbrofi yn y sector bwyd. Mae hyn yn adeiladu ar y prosiect blaenorol Tai, Iaith Gwaith, ble gwelwyd Cymdeithas Tai Eryri yn adeiladu deuddeg tŷ fforddiadwy a Chanolfan Fenter yn darparu deuddeg uned fusnes ar y safle.
- 6.6.5 Mae Partneriaeth Ogwen wedi sefydlu 'Siop Ogwen'; canolfan sydd yn cynnig lle i gyrff, megis yr Heddlu, i ddarparu cyngor neu wasanaeth, ac yn cynnig gwasanaeth lleol Siop Un Stop i drigolion ac ymwelwyr.
- 6.6.6 Bydd gweinyddiaeth y partneriaethau, mentrau a chynlluniau hyn yn Gymraeg gyda threfniant ar gyfer y di-Gymraeg. O ystyried hyn, mae cynnig cefnogaeth i'r cymunedau hyn ddatblygu eu cynlluniau sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn allweddol.
- 6.6.7 Mae tai hefyd yn faes sydd yn dylanwadu ar sefyllfa'r iaith Gymraeg, ac yng Ngwynedd mae problemau cyson ynglŷn â fforddiadwyedd tai; yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Mae prisiau tai yng Ngwynedd ar gyfartaledd 5.7 gwaith yn fwy na chyflog cyfartalog y Sir, gyda phrisiau tai y siroedd gwledig yng Nghymru o leiaf 10% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- 6.6.8 Mewn rhai ardaloedd o Wynedd - yn enwedig ym Mangor a'r cymunedau cyfagos - ceir pryderon yn lleol am ddylanwad nifer sylweddol o dai newydd fydd yn cael eu hadeiladu, gyda nifer o bobl lleol yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad ar yr hyn sydd yn digwydd yn eu cymunedau.
- 6.6.9 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn yn cydweithio ar ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, fel rhan o'r gofyn ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r broses yn ymdrin yn uniongyrchol â materion cynllunio, gan adnabod safleoedd posib ar gyfer datblygiadau economaidd a thai, ond mae hefyd yn ystyried effaith unrhyw ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg, ac adlewyrchir hynny yn y datganiad canlynol a ddywed fod yn rhaid i *'adfywio fod yn ystyriol o gymeriad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol cymunedau'*.
- 6.6.10 Mae'n bwysig bod yn hyblyg wrth lunio polisiau iaith er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod sefyllfa'r iaith Gymraeg yn amrywio o gymuned i gymuned, ac o ardal i ardal. Ar yr un pryd, dylid sicrhau bod mesuriadau i gryfhau a hyrwyddo'r Gymraeg i gyd-fynd ag unrhyw ddatblygiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 (Cynllunio a'r Iaith Gymraeg), fodd bynnag nid yw'r NCT yn rhoi arweiniad penodol ar sut i asesu pa ardaloedd a chymunedau Cymraeg eu hiaith all ymdopi orau â datblygiad.
- 6.6.11 Dyletswydd hunaniaith yw ychwanegu at y dystiolaeth gan hefyd weithredu'n arloesol gyda chynllunwyr, cymunedau a datblygwyr i broffilio sefyllfa'r Gymraeg a bywiogrwydd yr iaith mewn gweithgareddau cymunedol a diwylliannol yn fanwl iawn, cyfrannu at y broses a chynorthwyo i lunio a datblygu ymatebion fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg.
- 6.6.12 Yn ystod 2013, cynhaliwyd arolwg tai ac iaith ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cynhaliwyd yr arolwg trwy holiadur preswylwyr, gyda'r bwriad o geisio taro goleuni ar y berthynas rhwng y farchnad dai, sgiliau iaith Gymraeg yr ymatebwyr a'r defnydd o'r iaith.
- 6.6.13 Pan fydd canfyddiadau'r arolwg yma'n hysbys, bydd modd ystyried beth yw'r ffactorau allweddol sydd yn dylanwadu ar yr iaith Gymraeg mewn cymunedau, gan ein galluogi o bosib i gynllunio cymunedau Cymreig cynaliadwy i'r dyfodol.
- 6.6.14 Yn ôl Cynllun Busnes Cyngor Gwynedd mae bwriad o weithio tuag at *'gyflenwad o dai addas yn y sir'*. Mae cysylltiad amlwg rhwng tai, tai fforddiadwy a thai gwag, ac adfywio economaidd i wella ansawdd bywyd ac i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau.
- 6.6.15 Mae sawl cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydweithio gyda Chymdeithasau Tai Lleol; Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Tai Gogledd Cymru a Grŵp Cynefin. Mae gan y Cymdeithasau Tai ddylanwad ar ddatblygiadau tai cymdeithasol, ac ar gynlluniau datblygu cymunedol. Mae'r Gymraeg yn ganolog i hyn: bydd hunaniaith yn gweithio law yn llaw gyda hwy er mwyn sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol ac fel iaith gwasanaethu, a bod y Gymraeg yn ganolog i unrhyw waith ieuencid neu gynlluniau datblygu cymunedol a weithredir ganddynt.

## 6.6.16 Blaenoriaethau Strategol

### **Gallu**

- Hwyluso cymunedau i gyfrannu at gynigion datblygu yn eu hardal.

### **Cyfle**

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r iaith Gymraeg yn y polisiau ac yn y cynigion gofodol yn ymwneud â gwasgaru twf a datblygiadau tai.
- Gweithio gyda'r Tîm Cynllunio a datblygwyr i gyfoethogi'r proffil iaith cymunedol, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol o dueddiadau o fewn y gymuned ar gyfer datblygu a gweithredu polisiau mewn cynlluniau datblygu lleol.
- Sicrhau ystyriaeth o'r Gymraeg fel rhan o gynlluniau economaidd ac adfywio.

### **Awydd**

- Gweithio gyda budd-ddeiliaid o fewn y gymuned i wireddu mesurau lliniaru a chadarnhau statws y Gymraeg fel cyfrwng iaith y gymuned.

## ADRAN 7

### 7. CASGLIAD

- 7.1.1 Bydd hunaniaith yn gwneud ei orau gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo i greu'r amodau cywir i gynnal yr iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd.
- 7.1.2 Mae'r strategaeth hon yn uchelgeisiol, a chredir ei bod yn cynnwys yr amodau cywir fyddai'n galluogi'r Gymraeg i dyfu a ffynnu; ac er mai strategaeth 4 blynedd ydyw, gobeithir y bydd yn gyfrwng ar gyfer gosod sylfeini ar gyfer dyfodol tymor hir a chadarnhaol i'r Gymraeg yng Ngwynedd.
- 7.1.3 Mae'r ymrwymïadau a geir yn y ddogfen yma yn cynyddu amrediad y cyfleoedd i ddeall gwerth, dysgu, a defnyddio'r iaith Gymraeg ymhob agwedd o fywyd; gan sicrhau hefyd y rhoddir ystyriaeth briodol i'r iaith wrth lunio polisiau a gweithredu cynlluniau economaidd, adfywio a thai.
- 7.1.4 Er hyn, nid yw ymdrechion hunaniaith ar ei ben ei hun yn ddigon i achub yr iaith. Rhaid i'r gwaith o gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg fod yn ymdrech ar y cyd ar ran hunaniaith, ei bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ynghyd â thrigolion Gwynedd. Rhaid rhannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros dynged yr iaith.
- 7.1.5 Yn y pendraw, os yw'r iaith i oroesi, rhaid i unigolion gymryd perchnogaeth ohoni – sy'n golygu cael rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd, pobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith, ynghyd â gweithlu'r Sir yn darparu gwasanaethau Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn y gwaith.
- 7.1.6 Hyderwn fod dyfodol cadarnhaol i'r iaith Gymraeg os bydd pobl Gwynedd yn rhannu ein gweledigaeth a 'gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd'.

## ADRAN 8 : ATODIAD 1

- 8.1.1 Mae'r Strategaeth wedi ei seilio ar fanylion Cyfrifiad 2011, ar ddata ehangach, ymchwil, adolygiadau rhaglenni presennol, ac ar drafodaethau gyda chynrychiolwyr cymunedau a swyddogion proffesiynol, aelodau hunaniaith a chynrychiolwyr cyrff a mudiadau allweddol.
- 8.1.2 Yn ystod Mawrth 2014 dosbarthwyd y Strategaeth ddrafft yn eang ar draws Gwynedd er mwyn derbyn barn a gwybodaeth, gan ymgorffori sylwadau gan y gwahanol gyfranwyr.
- 8.1.3 Isod ceir crynodeb o'r prif negeseuon, yn ogystal â rhai pryderon a nodwyd wrth drafod gyda'r gwahanol sectorau, sydd wedi cael eu hystyried wrth lunio'r Strategaeth.

### 8.1.4 PRIF NEGESEUON Y SECTORAU

Sector	Prif Negeseuon
<b>Cyn Ysgol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Angen cynyddu ymwybyddiaeth iaith ymysg rhieni.</li><li>• Angen marchnata budd a manteision y Gymraeg.</li><li>• Angen mwy o hyfforddiant staff.</li><li>• Angen gwell cefnogaeth i rieni gael hyfforddiant iaith ar amseroedd addas.</li><li>• Angen edrych yn fanylach ar yr ardaloedd hynny ble mae rhieni yn dewis anfon eu plant i feithrinfeydd di-Gymraeg.</li><li>• Angen sicrhau bod cylchoedd meithrin yn cael cefnogaeth i weithredu yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.</li></ul>
<b>Addysg</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Angen gweithio gyda rhieni i godi ymwybyddiaeth am werth y Gymraeg i'w plant ac i'r teulu cyfan.</li><li>• Pwysigrwydd cael darpariaeth perthnasol i rieni gan wasanaeth Cymraeg i Oedolion.</li><li>• Angen hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff addysg i'w galluogi i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm ac y tu hwnt i hynny yn gymdeithasol.</li><li>• Angen annog defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth trwy gyfrwng gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg.</li><li>• Datblygu gweithgareddau megis gemau buarth ymhellach er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.</li></ul>
<b>Addysg Bellach</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diffyg ymwybyddiaeth iaith a dim digon o hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr.</li><li>• Dim digon o alw am sgiliau dwyieithog gan gyflogwyr, gan arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr galwedigaethol am yr angen i gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.</li><li>• Dim digon o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol o fewn y cwricwlwm ac ar draws gwahanol bynciau.</li><li>• Angen cryfhau'r neges am werth y Gymraeg ym maes hyfforddiant a pharatoi am swyddi.</li><li>• Angen adnoddau dysgu mwy amrywiol, difyr a chyfoes yn y maes, yn ogystal ag adnodd i hwyluso'r broses o hyfforddi a recriwtio staff</li></ul>

dwyieithog.

- Angen cydweithio agosach rhwng gwahanol sectorau er mwyn sicrhau dilyniant i'r dysgwyr dwyieithog.
- Angen mwy o ymarferwyr dysgu dwyieithog sydd â digon o hyder a hyfedredd i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, fel ei gilydd.
- Angen hybu pwysigrwydd y Gymraeg mewn meysydd penodol megis chwaraeon a hamdden.
- Angen datblygu ethos sy'n fwy Cymraeg ei naws ar draws sefydliadau addysgol.

### **Sector Gwirfoddol**

- Angen gwasanaethau cyfieithu rhesymol ar gyfer y sector wirfoddol.
- Angen cynyddu hyder pobl o'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus, gan ganolbwyntio ar sicrhau nad yw pobl yn cael eu cau allan o weithgareddau oherwydd eu bod yn teimlo nad yw safon eu Cymraeg yn 'ddigon da'.
- Pwysigrwydd defnyddio Cymraeg syml, clir a dealladwy.
- Pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chyfryngau cymdeithasol (ac ymfalchïo fod pobl yn gwneud hynny).
- Datblygu cynlluniau sylwebu a gweithgareddau dysgwyr sy'n fwy hyblyg a lleol.

### **Tai**

- Broceriaeth adeiladu / cynllunio i sicrhau ffocws ac ymateb ieithyddol.
- Arweiniad i gymdeithasau tai am rôl gymdeithasol y Gymraeg (pecyn croeso i denantiaid newydd).
- Angen buddsoddi mewn gwerthuso cynlluniau er mwyn gallu mesur gwir effaith cynlluniau tai ar batrymau ieithyddol.
- Cynllunio tai yn ofodol ofalus er mwyn hyrwyddo cymunedau hyfyw.

### **Busnes**

- Pryderon am gost ychwanegol gwasanaethau dwyieithog.
- Pryderon ynghylch cydymffurfio â safonau iaith newydd.
- Angen datblygu arweinwyr a phencampwyr ieithyddol mewn sefydliadau megis y sector iechyd.
- Angen datblygu ymgyrchoedd marchnata, ar y cyd gyda busnesau, ar gyfer sgiliau prin, sgiliau lefel uwch a swyddi a galwedigaethau lle mae prinder sgiliau Cymraeg / dwyieithog yn lleol (megis technoleg, rheoli prosiect).
- Angen ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ymysg siopau a busnesau lleol.
- Angen edrych ar ddarpariaeth hyfforddiant a gwersi Cymraeg i uwch reolwyr a busnesau.



**Iechyd a Gofal**

- Pwysigrwydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith perthnasol i staff.
- Angen arfogi cyflogwyr i allu denu siaradwyr Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol eu staff.

**Cymunedol****Democratiaeth**

- Angen cefnogi mentrau cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg mewn modd cynaliadwy.
- Angen cefnogi gweithrediad a gweithgareddau cymunedol.
- Angen gwasanaethau cyfieithu rhesymol ar gyfer cynghorau cymuned.
- Angen sicrhau bod grantiau cymunedol ar gael i gefnogi grwpiau brodorol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.
- Angen cefnogi cymunedau i gynnal ymchwil er mwyn llunio proffiliau iaith lleol.
- Angen hyrwyddo darpariaeth adloniant Gymraeg a hybu gwaith clybiau chwaraeon sy'n gweithredu drwy gyfrwng yr iaith.
- Angen cefnogi ymdrechion i gymhathu newydd-ddyfodiaid i'r gymuned.
- Angen diwygio ac addasu'r ddarpariaeth addysg gymunedol i oedolion a dysgwyr, oherwydd nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon hyblyg.
- Angen datblygu'r rhwydweithiau lleol ar gyfer pobl ifanc a chefnogi ymdrechion aelwydydd yr Urdd a chlybiau ieuenctid i hybu'r Gymraeg.
- Angen annog pobl ifanc i arwain a mentora yn eu cymunedau.
- Datblygu balchder cymunedol yn yr iaith Gymraeg a sefydlu trefn o bencampwyr lleol.
- Angen mesurau lliniaru i integreiddio'r iaith o fewn datblygu cymunedol.
- Angen cefnogi ac annog defnydd o bapurau bro, ochr yn ochr â dulliau eraill o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn lleol.
- Angen gwella'r cyswllt gyda swyddogion adfywio er mwyn sicrhau sylw digonol i'r Gymraeg o fewn cynlluniau adfywio cymunedol.

## 8.2 BARN AELODAU ETHOLEDIG

8.2.1 Ym mis Mawrth 2013, cynhaliwyd seminar i aelodau etholedig Cyngor Gwynedd i ystyried canlyniadau Cyfrifiad 2011. Cafwyd trafodaethau am y sefyllfa yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd ar sail y data lefel cenedlaethol, sirol a dosbarth. O'r trafodaethau hyn, adnabuwyd pum prif ffactor posib ar gyfer newid - cadarnhaol a negyddol - yn y sir, sef:

- Mudo
- Yr Economi
- Polisi Addysg
- Polisi Cynllunio
- Dewisiadau Defnydd Iaith

8.2.2 Gofynnwyd dau gwestiwn allweddol hefyd, sef:

*'Beth sydd wedi newid neu beidio ers 2001?'*

a

*'Beth sy'n gyfrifol am hyn?'*

8.2.3 Gwelwyd o'r trafodaethau fod yr un themâu yn codi ar draws pob maes:

- Defnydd iaith a'r hyder i'w defnyddio
- Patrymau mudo ac allfudo
- Rôl ysgolion ac addysg wrth hyrwyddo iaith
- Materion Tai a Chynllunio
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- Dylanwadu ar gyrff eraill.

Gellir cael gwybodaeth bellach a / neu gopiâu o ddogfennau cefndirol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hon (e.e. *Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd, Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn*) drwy gysylltu â hunaniaith.